

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol,
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

30 Tachwedd 2023

Annwyl Delyth

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Hydref yn holi am fwy o wybodaeth yn dilyn adroddiadau diweddar na fydd Duolingo yn parhau i olygu na diweddarau'r cwrs Cymraeg o Hydref 2023 ymlaen. Fe anfonoch chi lythyr pellach ataf i ar 22 Tachwedd yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn ein cyfarfod ni gyda chwmni Duolingo; gan i ni gyfarfod â'r cwmni ar 13 Tachwedd rwy'n falch i allu darparu diweddariad yn yr ymateb hwn.

Mae'n bwysig nodi ar y dechrau y bydd y cwrs Cymraeg dal ar gael ar blatfform Duolingo ac yn parhau i fod yn ddigost i bob dysgwr sy'n ei ddefnyddio. Ers dechrau'r bartneriaeth gyda Duolingo ym mis Ionawr 2022, mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("y Ganolfan") wedi gweithio i sicrhau bod cynnwys cwrs Cymraeg Duolingo wedi'i alinio â chwricwlwm y Ganolfan ar gyfer ei chysiau sylfaen a mynediad. Mae hyn yn golygu y gall dysgwyr ddefnyddio Duolingo fel adnodd ac offeryn ymarfer gwerthfawr ochr yn ochr â chysiau y maent yn eu dilyn gyda'r Ganolfan. Mae'r cwrs Cymraeg ar Duolingo yn gynhwysfawr a chefnogir hyn gan y nifer uchel o ddefnyddwyr gweithredol. Rwy'n falch felly y bydd y cwrs yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr i'w cefnogi wrth iddynt ddysgu Cymraeg.

O fis Tachwedd 2023 mae Duolingo yn oedi gwaith ar ei holl gyrsiau ar gyfer ieithoedd sy'n cael eu datblygu gyda phartneriaid fel y Ganolfan. Maent yn canolbwyntio am y tro ar ddatblygu cyrsiau yn fewnol ar gyfer yr ieithoedd mwyaf gan ddefnyddio eu staff eu hunain. Gan fod datblygu cynnwys yn gofyn am nifer sylweddol o staff arbenigol, mae Duolingo yn canolbwyntio ar yr ieithoedd mwy yn gyntaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Anfonais llythyr at Dr Luis von Ahn, sylfaenydd a Phrif Weithredwr Duolingo ar 25 Hydref, yn fuan ar ôl cael fy hysbysu'n ffurfiol o'u cynlluniau, gan ofyn iddo ailystyried penderfyniad y cwmni i atal y datblygiadau ar gynnwys Cymraeg Duolingo. Cyhoeddwyd y llythyr hwnnw ar wefan y Llywodraeth: [Llythyr: Duolingo | LLYW.CYMRU](#).

Cefais ateb gan Dr von Ahn ar 29 Hydref yn nodi nad oedd y penderfyniad i oedi datblygiad cynnwys newydd ar y cwrs Cymraeg wedi bod yn un hawdd. Fodd bynnag, dywedodd Dr von Ahn ei fod yn credu bod gan y cwmni rôl barhaus i'w chwarae wrth helpu ieithoedd fel y Gymraeg i ffynnu a nododd ei fod wedi gofyn i aelodau ei dîm estyn allan i'm swyddfa i weld sut y gallai Duolingo barhau i gefnogi Cymraeg 2050.

Oherwydd contract ffurfiol y Ganolfan gyda Duolingo, roedd yr holl ymwneud ynghylch y cwrs Cymraeg cyn hyn rhwng y ddau barti hynny. Gwnaeth swyddogion o Is-adran Cymraeg 2050 gyfarfod â Phennaeth Materion Llywodraethol Duolingo ar 13 Tachwedd. Yn ystod y cyfarfod tynnodd Duolingo sylw at yr heriau sylweddol y mae'n eu hwynebu wrth ddatblygu cynnwys newydd ac, er ei fod yn oedi datblygiad cynnwys newydd, pwysleisiwyd nad yw'r drws ar gau ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Roedd Duolingo hefyd yn awyddus i bwysleisio bod y profiad o weithio gyda'r Ganolfan fel partner wedi bod yn un cadarnhaol ac adeiladol, a chanmolodd yr ymrwymiad y Ganolfan i ddatblygu cwrs Cymraeg Duolingo ac i gynyddu nifer y defnyddwyr.

Rwy'n falch o ddweud, drwy'r cyfarfod hwn, ein bod wedi meithrin perthynas gadarnhaol â Duolingo ac wedi cytuno ar nifer o gamau i sicrhau bod ymrwymiad y cwmni i'r Gymraeg yn parhau. Yn y tymor byr rydym wedi cytuno i gael trafodaeth barhaus i ddeall yn well yr heriau y mae Duolingo yn eu hwynebu wrth ddatblygu cynnwys newydd ac i weld a oes unrhyw gymorth ymarferol y gallwn ei gynnig i hwyluso'r gwaith hwn yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi cytuno i edrych ar ffyrdd y gallem weithio mewn partneriaeth â Duolingo a'r Ganolfan i barhau i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r cwrs Cymraeg fel cymorth dysgu ac i hyrwyddo cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr sydd wedi dod i ddiwedd y cwrs Duolingo.

Yn y tymor hirach rydym wedi cytuno i gwrdd yn rheolaidd wrth i ni ddatblygu'r cynigion yn y Bil Addysg Gymraeg ac un continwmm ar gyfer sgiliau Cymraeg, er mwyn ystyried a oes gan Duolingo rôl fel adnodd i gefnogi addysgu a dysgu wrth i bobl symud ymlaen ar hyd y continwmm.


Mae Duolingo hefyd wedi ymrwymo i rannu eu harbenigedd i helpu gyda'n cenhadaeth i ymgysylltu â dysgwyr ifanc a chynnig gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed. Mae cyfran sylweddol o ddefnyddwyr Duolingo ledled y byd o fewn y braced oedran hwnnw ac rwy'n falch y bydd modd i ni dynnu ar eu profiadau wrth i ni chwilio am y ffyrdd gorau o ddenu pobl ifanc i ddysgu Cymraeg.

Ailddatganodd Duolingo hefyd ei ymrwymiad i sicrhau y bydd y cwrs Cymraeg bob amser ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr, a'i fod yn barod i gael deialog reolaidd gyda ni a'r Ganolfan a fydd yn caniatáu inni adolygu os oes angen diweddariadau i'r cwrs Cymraeg yn y dyfodol.

Mae'r Ganolfan yn fodlon â'r cwrs Cymraeg ar Duolingo fel mae'n sefyll, ac mae'n cyfateb i tua A2 ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd (CEFR). Mae'r Ganolfan wedi gweithio gyda Duolingo i ddatblygu'r cynnwys hwn fel ei bod yn gymorth addysgu gwerthfawr i'w dysgwyr, a all eu helpu ar hyd eu taith i ddod yn siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl pennu goblygiadau ariannol datblygu cynnwys newydd, ond mae Duolingo a'r Ganolfan wedi nodi y byddai datblygu cwrs Cymraeg i lefel ganolradd (hyd at B2 ar gontinwwm CEFR) yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau ychwanegol o ran amser staff.

Fel yr amlinellwyd uchod, rydym yn awyddus i gynnal deialog gyda Duolingo er mwyn deall yn well yr heriau y mae'n eu hwynebu ac i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn cefnogi creu a chyflwyno continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular initial followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

